Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Medi 2017

Annwyl Simon

**Tanwariant o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf 2017.

Rydym yn nodi eich pryder ynghylch y ffordd y mae'r Comisiwn yn pennu proffil y gyllideb ac, yn benodol, eich pryder y dylai prosiect o faint adnewyddu'r llawr gwaelod fod wedi dod i'r amlwg yn gynharach.

Cyfarfu'r Comisiwn ar 17 Gorffennaf a defnyddiodd y cyfle i drafod eich llythyr. Cytunwyd y dylai'r cyflwyniad ynghylch y gyllideb ddrafft ym mis Medi roi manylion ychwanegol am faint o'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau y disgwylir i Aelodau'r Cynulliad ei defnyddio.

Byddwn yn cysylltu â'r Bwrdd Taliadau ac, os bydd yr amserlen yn caniatáu, byddwn yn adlewyrchu unrhyw newidiadau a ystyrir gan y Bwrdd ar gyfer 2018-19 yn yr amcangyfrif hwn.

Hefyd, byddwn yn cynnwys gwybodaeth am y prosiectau a'r blaenoriaethau y gellir eu hariannu drwy unrhyw danwariant o'r Penderfyniad yn ein dogfen ar gyllideb ddrafft 2018/19.

Rydym yn fodlon y bydd unrhyw brosiectau a nodir yn cael eu harchwilio ac mai dim ond ar gyfer eitemau hanfodol sy'n flaenoriaeth i'r Comisiwn y caiff arian ei ryddhau. Mae'r Comisiwn hefyd yn fodlon bod cynlluniau gwario cadarn a realistig ar waith ar gyfer cyllideb gyfan Comisiwn y Cynulliad.

Diolch eto am ein herio i fyfyrio ar ein gwaith.
Rhowch wybod os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach.

Yn gywir



Suzy Davies

copi at Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English